

Creu'r amserlen gyffredin Cymwysterau FSMQ, TAG a TGAU

Cyflwyniad

Mae cyrff dyfarnu **FSMQ, TAG a TGAU** yn cynhyrchu amserlenni cyffredin, sy'n cwmpasu'r holl bynciau, er budd yr ymgeiswyr a'r canolfannau. Mae'r amserlen gyffredin, a gefnogir gan gyhoeddiad y **CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau**, yn gweithredu er budd gorau'r ymgeiswyr.

Mae amserlenni cyffredin yn cael eu creu ar gyfer y gyfres arholiadau **TGAU** mis Tachwedd a'r gyfres arholiadau **FSMQ, TAG a TGAU** ym mis Mehefin.

Gellir trefnu cydran o arholiad ar unrhyw amser o fewn cyfnod yr amserlen y cytunwyd arni, yn amodol ar y meini prawf sy'n cael eu rhestru ar **dudalennau 4 a 5** y ddogfen hon. **Ni ddylid** tybio y bydd pwnc neu gydran unigol yn cael ei amserlennu ar sail trefniadau hanesyddol.

Mae manylion am ddechrau a diwedd pob cyfres, a phryd fydd canlyniadau'n cael eu cyhoeddi, i'w gweld yn y tabl isod.

	Cyfres	
	Tachwedd 2019	Mehefin 2020
Pryd mae'r gyfres yn dechrau?	Dydd Llun 4 Tachwedd 2019	Dydd Llun 11 Mai 2020† †Ar gyfer canolfannau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, bydd hyn o ddydd Mawrth 5 Mai 2020 ymlaen.
Pryd mae'r gyfres yn gorffen?	Bydd cyfres mis Tachwedd yn para am bythefnos	Bydd cyfres mis Mehefin yn para am chwe wythnos ac eithrio hanner tymor Gŵyl y Banc y Gwanwyn
Pryd fydd y canlyniadau'n cael eu rhyddhau i ymgeiswyr?	Dydd Iau 16 Ionawr 2020	Cymwysterau FSMQ a TAG: Dydd Iau 13 Awst 2020 Cymwysterau TGAU: Dydd Iau 20 Awst 2020

Mae gwybodaeth ar sut mae'r amserlen gyffredin yn cael ei chynhyrchu i'w gweld ar **dudalennau 4 a 5**.

Amserlen ar gyfer cyhoeddi amserlenni arholiadau a derbyn adborth gan ganolfannau yn ystod y flwyddyn academiaidd

Cyfres TGAU Tachwedd

Bydd y cyrff dyfarnu'n cyhoeddi amserlenni dros dro ar-lein ar gyfer cyfres arholiadau TGAU Tachwedd y flwyddyn ganlynol erbyn 31 Hydref fan hwyraf.

Rhoddir cyfle i ganolfannau roi sylwadau ar yr amserlen TGAU Tachwedd dros dro.

Mae'n **rhaidd** i sylwadau, arsylwadau neu newidiadau a awgrymir i'r amserlen gyrraedd Swyddfa'r CGC **erbyn 30 Tachwedd fan hwyraf**, i'w hystyried gan Weithgor Amserlen Gyffredin y CGC.

Bydd Gweithgor Amserlen Gyffredin y CGC yn ystyried sylwadau gan ganolfannau'n ofalus.

Bydd yr amserlen gyffredinol yn derfynol erbyn 31 Chwefror fan hwyraf. Hefyd, bydd pob corff dyfarnu'n cyhoeddi ei amserlen derfynol ei hun ar gyfer TGAU Tachwedd erbyn y dyddiad hwn.

Cyfres arholiadau FSMQ, TAG a TGAU Mehefin

Bydd y cyrff dyfarnu'n cyhoeddi amserlenni dros dro ar-lein ar gyfer cyfres arholiadau mis Mehefin y flwyddyn ganlynol erbyn 28 Chwefror fan hwyraf.

Rhoddir cyfle i ganolfannau roi sylwadau ar yr amserlen Mehefin dros dro.

Mae'n **rhaidd** i sylwadau, arsylwadau neu newidiadau a awgrymir i'r amserlen gyrraedd Swyddfa'r CGC **erbyn 30 Ebrill fan hwyraf**, i'w hystyried gan Weithgor Amserlen Gyffredin y CGC.

Bydd Gweithgor Amserlen Gyffredin y CGC yn ystyried sylwadau gan ganolfannau'n ofalus.

Bydd yr amserlen gyffredinol yn derfynol erbyn 30 Mehefin fan hwyraf. Hefyd, bydd pob corff dyfarnu'n cyhoeddi ei amserlen FMSQ, TAG a TGAU Mehefin ei hun erbyn y dyddiad hwn.

Bydd fersiynau dros dro a fersiynau terfynol yn cael eu rhannu gyda Sefydliadau Athrawon hefyd.

Manylion Cyswllt: centresupport@jcq.org.uk

Dyddiadau allweddol

	Cyfres TGAU Tachwedd	Cyfres FSMQ, TAG a TGAU Mehefin
Cyhoeddi amserlen dros dro erbyn:	31 Hydref	28 Chwefror
Derbyn sylwadau gan ganolfannau erbyn:	30 Tachwedd	30 Ebrill
Cyhoeddi amserlen derfynol erbyn:	31 Ionawr	30 Mehefin

Lle mae'r amserlenni'n cael eu cyhoeddi?

Mae pob corff dyfarnu'n cyhoeddi amserlenni arholiadau ar eu gwefan:

www.aqa.org.uk

www.ccea.org.uk

<http://qualifications.pearson.com>

www.ocr.org.uk

www.cbac.co.uk

Bydd Gweithgor Amserlen Gyffredin y CGC yn gweithio i'r rheolau busnes canlynol wrth gynhyrchu'r amserlen gyffredin.

1. Bydd y cyrff dyfarnu i gyd yn cytuno ar slotiau pwnc yn yr amserlen gyffredinol ar gyfer pob **manyleb pwnc FSMQ, TAG a TGAU**. Bydd y slotiau cyffredin hyn yn pennu'r dyddiad a'r sesiwn i'w ddefnyddio ar gyfer pob cydran arholiad. Mewn rhai achosion, efallai y bydd corff dyfarnu angen slotiau ychwanegol ar gyfer ei bapurau ar gyfer manyleb **FSMQ, TAG neu TGAU** penodol.
2. Wrth benderfynu ar y slotiau pwnc hyn bydd cyrff dyfarnu'n ystyried cyfuniadau pynciau gan ddefnyddio data ystadegol o gyfresi blaenorol ac adborth gan ganolfannau. **Bydd yr amserlen gyffredin yn nodi trefniadau amserlennu cymwysterau FSMQ, TAG a TGAU er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro ar yr amserlen.**
3. Bydd cyrff dyfarnu'n ceisio lleihau'r gwrthdaro ar yr amserlen a phroblemau cynnal ar gyfer canolfannau. Fodd bynnag, o ystyried maint a chymhlethdod yr amserlen gyffredin, bydd gwrthdaro ar yr amserlen yn anochel. Mae canllawiau ar reoli gwrthdaro ar yr amserlen mewn canolfannau i'w gweld yn **adran 7 cyhoeddiad y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau** - <http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations>
4. Bydd arholiadau'n cael eu hamserlennu yn ystod amseroedd safonol y tymor ac nid yw'n gallu cymryd cyfnodau cau ysgolion na cholegau unigol i ystyriaeth. Ni fydd y cyrff dyfarnu'n amserlennu arholiadau ar gyfer penwythnos neu Ŵyl y Banc.
5. Ni fydd pynciau TGAU† craidd a TAG‡ hwyluso yn cael eu hamserlennu ar gyfer y sesiwn prynhawn Gwener cyn yr hanner tymor. Mae hyn er mwyn sicrhau fod cynifer o sgriptiau â phosibl yn cael eu danfon cyn gwyliu'r hanner tymor.
6. I adlewyrchu dewisiadau canolfannau bydd papurau TAG UG yn cael eu hamserlennu cyn papurau TAG U2 a Safon Uwch.
7. Ni fydd arholiadau TGAU Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Chymraeg Iaith yn cael eu hamserlennu gyda'i gilydd yn yr un sesiwn fore neu brynhawn. Ni fydd unrhyw bwnc TGAU arall yn cael ei amserlennu yn erbyn unrhyw un o'r pynciau hyn.
8. Bydd TGAU Saesneg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn cael eu hamserlennu mewn wythnosau gwahanol. Bydd yr un egwyddor yn berthnasol i arholiadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg.
9. Ni fydd arholiadau leithoedd Tramor Modern TAG a TGAU gyda chofrestriad mawr, h.y. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, a TGAU Cymraeg 2il Iaith, yn cael eu hamserlennu gyda'i gilydd yn yr un sesiwn.
10. Ni fydd arholiadau leithoedd Tramor Modern TAG a TGAU gyda chofrestriad mawr, h.y. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, a TGAU Cymraeg 2il Iaith, yn cael eu hamserlennu ar ddyddiau olynol er mwyn rhoi digon o amser i ymgeiswyr newid o un iaith i'r llall.
11. Er mwyn adlewyrchu dewisiadau'r canolfannau bydd y slotiau dynodedig cyffredin ar gyfer arholiadau TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg yn cael eu hamserlennu mewn sesiynau bore.
12. Bydd diwrnod olaf yr amserlen gyffredin yn cael ei ddefnyddio at bwrpasau wrth gefn. Mae 'diwrnod wrth gefn' ar yr amserlen gyffredin rhag ofn bod amhariad cenedlaethol neu lleol parhaus yn digwydd i arholiadau. Mae'n rhan o gynllunio wrth gefn safonol y cyrff dyfarnu ar gyfer arholiadau ac mae'n gyson â dogfen rheoleiddwyr y cymhwyster Cynllun wrth gefn system arholiadau: Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon - <https://www.gov.uk/government/publications/exam-system-contingency-plan-england-wales-and-northern-ireland>

†Pynciau Craidd TGAU fyddai TGAU Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Daearyddiaeth, Hanes, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Sbaeneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg.

‡ Pynciau hwyluso TAG fyddai Bioleg, Cemeg, Ieithoedd Clasurol, Saesneg Iaith,
Llenyddiaeth Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes, Mathemateg a Mathemateg Bellach, Ieithoedd Tramor
Modern a Ffiseg.

Wrth gynhyrchu'r amserlen gyffredin bydd Gweithgor Amserlen Gyffredin y CGC yn ceisio:

1. Amserlennu pynciau â chofrestriad mawr cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso marcio ac yn sgil hynny rhyddhau canlyniadau arholiadau'n amserol ac yn gywir;
2. Amserlennu arholiadau TAG UG yn Wythnosau 1-3 yr amserlen ac arholiadau TAG U2 a Safon Uwch yn Wythnosau 2-6 yr amserlen;
3. Amserlennu arholiadau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a TAG leithoedd Tramor Modern sydd â chofrestriadau mawr, h.y. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, mewn sesiynau bore;
4. Amserlennu cynifer â phosibl o arholiadau TAG Mathemateg mewn sesiynau bore er mwyn lleihau heriau logisteg ar gyfer canolfannau, yn enwedig lle mae ymgeiswyr yn cael amser ychwanegol a/neu egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth;
5. Ystyried gwyliau crefyddol. Ond, ni fydd bynnag, y cyrff dyfarnu'n gallu osgoi amserlennu arholiadau ar ddyddiau o'r fath. Yn yr un modd, bydd yr amserlen gyffredin yn ystyried Dydd y Cadoediad ym mis Tachwedd.